**Eluned Morgan AS/MS**
**Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**
**Minister for Health and Social Services**

**Julie Morgan AS/MS**
**Y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol**
**Deputy Minister for Social Services**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref MA EM 2427 22

Russel George AS/MS
Cadeirydd/Chair
Senedd Cymru/Welsh Parliament
Bae Caerdydd/Cardiff Bay
Caerdydd/Cardiff
CF99 1SN

SeneddHealth@senedd.wales

28 Gorffennaf/28 July 2022

Annwyl/Dear Russell,

Darllenasom â diddordeb mawr adroddiad y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol, *Rhyddhau cleifion o ysbytai ac effaith hynny ar y llif cleifion drwy ysbytai*, a gyhoeddwyd yn dilyn ei Ymchwiliad a ystyriai sut y gellir gwella llif cleifion drwy ysbytai.

Ceir ynghlwm ymateb ysgrifenedig oddi wrth Lywodraeth Cymru i'r adroddiad hwn. Mae'n cynnwys ymateb i bob un o'r 25 o argymhellion a wnaed gan y Pwyllgor.

We have read with interest the report of the Health and Social Care Committee entitled: *Hospital Discharge and its impact on Patient Flow Through Hospitals* published following its Inquiry that explored how patient flow through hospitals can be improved.

Please find attached a written response from the Welsh Government to this report. This contains responses to each of the 25 recommendations that the Committee has made.

Yn gywir/ Yours sincerely

**Eluned Morgan AS/MS**
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Minister for Health and Social Services

**Julie Morgan AS/MS**
Y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol
Deputy Minister for Social Services

**Ymateb ysgrifenedig gan Lywodraeth Cymru i Adroddiad y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn dilyn ei Ymchwiliad i ryddhau cleifion o ysbytai a'i effaith ar lif cleifion drwy ysbytai**

| |
|---|
| **Argymhelliad 1.** Cyn diwedd 2022, dylai Llywodraeth Cymru ysgrifennu atom i roi'r wybodaeth ddiweddaraf am effeithiolrwydd ac effaith ailosod y system ar draws y maes iechyd a gofal cymdeithasol, gan gynnwys i ba raddau y mae wedi cefnogi a gwella llif drwy'r system gyfan, yr effaith y mae wedi'i chael ar nifer y cleifion sy'n cael eu dal yn ôl, a pha gamau pellach a fwriedir o ganlyniad i hynny. |

Ymateb Llywodraeth Cymru:

**Derbyn**

O ystyried y pwysau parhaus a chynyddol ar y system iechyd a gofal cymdeithasol, cynhaliwyd uwchgynhadledd risg iechyd a gofal cymdeithasol genedlaethol ar 15 Chwefror 2022.

Mynychwyd yr uwchgynhadledd gan Brif Weithredwyr, swyddogion clinigol a swyddogion gweithredol o faes iechyd a gofal cymdeithasol yn ogystal â chyfarwyddwyr Llywodraeth Cymru. Un o'r canlyniadau a gytunwyd gan fynychwyr yr uwchgynhadledd honno oedd pythefnos o ailosod y system yn genedlaethol yn ystod mis Mawrth 2022. Roedd y grŵp o'r farn y gallai ailosod y system gefnogi gwella ansawdd a lleihau'r risg o niwed i gleifion, gan ganolbwyntio ar y meysydd allweddol canlynol o'r llwybr gofal brys a gofal mewn argyfwng:

- Gwella prosesau trosglwyddo cleifion o ambiwlansys;
- Gwella effeithlonrwydd 'tynnu' cleifion o Adrannau Achosion Brys i wardiau ysbytai;
- Darparu ymateb mwy rhagweithiol i bwysau cynyddol i er mwyn rheoli'r galw cynyddol yn well; a
- Darparu prosesau cynllunio rhyddhau cleifion cyson dda er mwyn gallu trosglwyddo gofal cleifion o safleoedd ysbytai acíwt yn brydlon.

Cynhaliwyd digwyddiad dysgu ailosod y system ar 1 Mehefin 2022, lle bu arweinwyr Byrddau Iechyd yn rhannu dysgu o ailosod systemau yn lleol ac yn disgrifio sut y byddai hyn yn cael ei drosi'n 'fusnes fel arfer' lle bo hynny'n berthnasol. Amlygodd y digwyddiad dysgu rai o fanteision gweithredol ailosod y system, gyda swyddogion yn nodi'r themâu dysgu allweddol canlynol:

1. Awgrymodd arweinwyr Byrddau Iechyd nad oedd digon o amser paratoi i gynllunio'n briodol ar gyfer ailosod y system; ond roedd yr ailosod wedi caniatáu i sefydliadau ailbennu eu blaenoriaethau gyda phartneriaid a thimau.
2. Nid oedd Awdurdodau Lleol wedi ymgysylltu'n llawn ar ddechrau'r broses, yn rhannol oherwydd natur fyr rybudd y bythefnos o ailosod y system, felly roedd hi'n anodd cysoni dull system gyfan a chyflawni gwelliannau mewn llif cleifion; a

3. Roedd cyfyngiadau capasiti staffio, yn sgil absenoldeb oherwydd salwch ac ynysu o ganlyniad i Covid, yn golygu ei bod yn anodd gwella capasiti'r gweithlu mewn rhannau allweddol o'r llwybr i wneud gwahaniaeth a chyflawni'r canlyniadau a ddymunwyd.

Ar ôl ailosod y system, cytunodd Bwrdd Arweinyddiaeth GIG Cymru y dylai unrhyw wersi a ddysgwyd gael eu llywio drwy raglenni Chwe Nod ar gyfer Gofal Brys a Gofal mewn Argyfwng lleol a chenedlaethol, a lansiwyd ym mis Mai 2022. Bydd disgwyl i Fyrddau Iechyd, Ymddiriedolaethau'r GIG a Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol hefyd ystyried dysgu fel rhan o'r gwaith o ddatblygu cynlluniau gaeaf ar gyfer 2022/2023.

**Goblygiadau ariannol:**

Dim

**Argymhelliad 2.** Rhaid i Lywodraeth Cymru sicrhau bod y Gronfa Integreiddio Rhanbarthol (RIF) newydd ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn effeithiol o ran canfod a phrif ffrydio prosiectau llwyddiannus sy'n gwella llif cleifion i arfer cyffredin ledled Cymru. Felly, dylai'r adroddiadau statws chwarterol gynnwys asesiad o gynnydd o ran datblygu a chyflwyno prosiectau i wella llif cleifion

<u>Ymateb Llywodraeth Cymru:</u>

**Derbyn**

Rydym wedi gweithredu ar hyn ar fyrder, ac wedi comisiynu manylion ychwanegol gan y Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol ynghylch y gefnogaeth bresennol ar gyfer gwelyau cam-i-lawr gan y Gronfa Integreiddio Rhanbarthol, a rhagamcanion ar gyfer mis Hydref 2022. O ganlyniad, bydd y set gyntaf o adroddiadau gan y Gronfa Integreiddio Rhanbarthol yn cael eu helaethu gan y data ychwanegol hwn ar lif cleifion mewn ysbytai. Byddwn yn adolygu'r ffynhonnell ddata ychwanegol hon ar gyfer adroddiadau'r dyfodol er mwyn sicrhau dull gweithredu cymesur.

**Goblygiadau ariannol:**

Dim

**Argymhelliad 3.** Dylai Llywodraeth Cymru ddarparu rhagor o wybodaeth am sut a phryd y bydd yr archwiliadau arfaethedig o'r Gronfa Integreiddio Rhanbarthol ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn cael eu cynnal, sut yr ymgynghorir â rhanddeiliaid, ac a fydd adroddiadau'n cael eu cyhoeddi.

Ymateb Llywodraeth Cymru:

**Derbyn**

Yn y flwyddyn gyntaf hon o'r Gronfa Integreiddio Rhanbarthol, mae swyddogion yn gweithio'n agos gyda'r rhanbarthau i adolygu'r cynigion buddsoddi a'r rhaglenni a'r prosiectau sydd ynghlwm wrthynt. Yn ogystal â'r cyngor a'r cymorth hwn, mae swyddogion wedi comisiynu OB3 i gynnal adolygiad annibynnol a myfyrio ar y cynnydd a wnaed o'r Gronfa Gofal Integredig / Cronfa Trawsnewid i sicrhau bod argymhellion o'r gwerthusiadau hynny wedi'u hystyried a'u bod yn cael eu hadlewyrchu'n amlwg yn y rhaglen newydd.

Mae swyddogion hefyd yn rhoi panel o arbenigwyr allanol ar waith i weithredu fel cyfaill beirniadol, gan ddarparu arbenigedd, cyngor a chymorth i Lywodraeth Cymru a'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol tra'n sicrhau ystyriaeth lawn o ofynion y Gronfa Integreiddio Rhanbarthol o fewn y rhaglenni a'r prosiectau perthnasol. Oherwydd y dull helaeth hwn, nid oes unrhyw gynlluniau ar gyfer archwiliad ym mlwyddyn un. Fodd bynnag, byddwn yn chwilio am gyfleoedd i'r perwyl hwnnw wrth i'r Gronfa Integreiddio Rhanbarthol aeddfedu a byddwn yn sicrhau bod gwybodaeth am hyn yn cael ei rhannu'n amserol, gan ymgynghori â'r holl randdeiliaid allweddol.

**Goblygiadau ariannol:**

Dim

| |
|---|
| **Argymhelliad 4.** Dylai Llywodraeth Cymru bennu a chyhoeddi amserlen ar gyfer cyflwyno mesuriadau data newydd, gwell mewn perthynas ag oedi wrth drosglwyddo gofal |

Ymateb Llywodraeth Cymru:

**Derbyn**

Er mwyn rhyddhau staff y GIG i ganolbwyntio ar ddarparu gofal diogel i'n pobl fwyaf agored i niwed yn ystod y pandemig, penderfynwyd oedi nifer o fframweithiau adrodd, gan gynnwys ffurflenni yn adrodd ar achosion o oedi wrth drosglwyddo gofal.

Rydym yn cydnabod bod casglu data yn y maes hwn yn bwysig am sawl rheswm, megis gallu nodi agweddau ar arfer gorau wrth weithredu llif cleifion effeithlon, a hefyd ein gallu i fonitro ein systemau iechyd a gofal cymdeithasol i helpu i reoli unrhyw bwysau sy'n cronni.

Er mwyn cyflawni hyn, mae swyddogion wedi sefydlu grŵp arbenigol sydd hefyd yn cynnwys aelodau o staff y GIG, Uned Gyflenwi'r GIG, Iechyd a Gofal Digidol Cymru (DHCW), cynrychiolwyr byrddau iechyd ac awdurdodau lleol i ystyried sut i ailgychwyn adrodd a sut i ddiwygio a diweddaru'r drefn adrodd hefyd. Mae gwaith wedi'i wneud i adolygu a diwygio'r system ffurfiol ar gyfer casglu data ac adrodd. O ganlyniad, datblygwyd amserlen o weithgarwch a fydd yn caniatáu adfer adroddiadau data rheolaidd, ffurfiol drwy gronfa ddata "Adrodd ar Lwybrau Gofal" a fydd yn addasiad o'r hen gronfa ddata oedi wrth drosglwyddo gofal.

Byddwch eisoes yn gyfarwydd â Rhyddhau i Adfer ac yna Asesu (D2RA) a gyflwynwyd yn ystod y pandemig fel mecanwaith pellach i fyrddau iechyd ei ddefnyddio i symud

cleifion yn ddiogel drwy ysbytai ac yn ôl i'w cartrefi neu i leoliad gofal/preswyl. Yn ogystal â gweithio i ddiweddaru ac ailgyflwyno adroddiadau rhyddhau ffurfiol, byddwn hefyd yn ystyried sut y gallwn gysoni'r fframwaith hwn i gynnwys adroddiadau ffurfiol ar lwybrau D2RA.

Yn olaf, ar y cyd â gweithredu'r gwaith casglu data diwygiedig, byddwn yn gweithio gyda rhanddeiliaid i ystyried unrhyw feysydd pellach y gellid eu cynnwys yn yr adroddiadau ffurfiol yn y dyfodol. Ar hyn o bryd, rydym wedi nodi meysydd fel rhyddhau sy'n cynnwys gwasanaethau iechyd meddwl neu anabledd dysgu fel llwybrau i'w harchwilio yn y lle cyntaf.

Caiff y fframwaith newydd ei roi ar waith fesul cam er mwyn gallu treialu'r fformat gwaith mewn tair ardal beilot i adolygu ei effeithiolrwydd cyn gwneud unrhyw newidiadau terfynol a chyflwyno'r cynllun i bob bwrdd a gwasanaeth iechyd. Bydd y dull hwn yn helpu i sicrhau bod y diwygiadau i'r system yn addas i'r diben a bod y fframwaith adrodd yn ennill ei blwyf effeithlon gyda thimau. Mae crynodeb o'r amserlenni ar gyfer datblygu a chyflwyno'r fframwaith adrodd ffurfiol newydd i'w weld isod:

| **Cam** | **Dyddiad a Cham Gweithredu** |
|---|---|
| **Cam 1** – Datblygu'r fframwaith adrodd craidd a'r cynllun peilot | Dechreuwyd ar 18 Gorffennaf – gweithredu adroddiadau peilot mewn tair ardal bwrdd iechyd a monitro'r allbwn. |
| | Gorffennaf – Awst – Monitro'r cynllun peilot. Ceisio adborth parhaus ar weithredu gan dimau sy'n rhan o'r cynllun peilot. |
| **Cam 2** – Cyflwyno'r fframwaith adrodd diwygiedig yn llawn – Cymru gyfan | Canol Awst – Medi – Adolygu canlyniadau terfynol y cynllun peilot a gweithredu unrhyw newidiadau angenrheidiol i'r fframwaith adrodd cyn cyflwyno'r cynllun yn llawn i bob bwrdd iechyd. |
| | Diwedd Medi – cyflwyno fframwaith adrodd misol newydd i'r holl fyrddau iechyd a phartneriaid gofal cymdeithasol, cyn gwaith cynllunio sylweddol ar gyfer y gaeaf. |
| | Medi i Chwefror – Gweithio gyda grwpiau arbenigol a rhanddeiliaid i ddatblygu cynigion i ehangu'r fframwaith adrodd. |

| | |
|---|---|
| **Cam 3** – adolygu a chynigion i ehangu ystyriaethau'r fframwaith adrodd (anabledd dysgu, iechyd meddwl ac ati) | Chwefror 2023 – cynnal adolygiad chwe mis o'r fframwaith i asesu a oes angen unrhyw fireinio pellach.<br><br>Datblygu amserlen i weithredu unrhyw ehangu ar y fframwaith adrodd i feysydd nad ydynt wedi'u cynnwys yn ffurfiol o'r blaen. |

**Goblygiadau ariannol:**

Dim

**Argymhelliad 5.** Fel rhan o'i gwaith o fonitro'r modd y caiff Rhyddhau i Adfer yna Asesu (D2RA) ei weithredu, rhaid i Lywodraeth Cymru egluro sut mae'n bwriadu sicrhau bod cynllunio ar gyfer rhyddhau cleifion yn digwydd cyn gynted â phosibl a'i bod yn cynnwys cynrychiolwyr o'r holl sectorau perthnasol.

Ymateb Llywodraeth Cymru:

**Derbyn**

Rydym eisoes wedi sefydlu canllawiau ar gyfer byrddau iechyd a phartneriaid perthnasol i gyd-fynd â gweithredu arferion D2RA yng Nghymru. Cafodd y rhain eu hymgorffori mewn canllawiau rhyddhau ehangach i gefnogi'r sector drwy'r pandemig, ac maent yn parhau i fod ar waith yn y canllawiau cyfredol.

Fel rhan o'r Chwe Nod ar gyfer Gofal Brys a Gofal mewn Argyfwng, mae nod pump: '*darparu'r gofal a'r ymarfer rhyddhau gorau posibl i'r claf ar ôl iddo gael ei dderbyn i'r ysbyty*', a nod chwech: '*dull 'gartref yn gyntaf' a lleihau'r risg o orfod mynd yn ôl i'r ysbyty*' yn cyd-fynd â'r canllawiau rhyddhau cenedlaethol ac yn ceisio eu cyflawni.

Ar gyfer nodau pump a chwech, mae Uned Gyflawni'r GIG wedi ei chomisiynu i ddatblygu **Rhaglen Gofal Ysbyty Optimaidd a Gartref yn Gyntaf**. Ei nod yw galluogi ymarfer rhyddhau optimaidd a gwireddu egwyddorion Gartref yn Gyntaf i reoli pobl yn well yn y gymuned, rhyddhau capasiti mewn ysbytai a lleihau'r risg o bobl yn gorfod cael eu derbyn i'r ysbyty. Mae llif ysbyty'n ymwneud â mwy na'r pwynt rhyddhau ac mae sawl agwedd ar gyflawni gweithredol llyfn a phrofiadau a chanlyniadau cadarnhaol i gleifion.

Fel rhan o'r rhaglen hon, mae swyddogion bellach yn gweithio gyda chydweithwyr Uned Gyflawni'r GIG i gefnogi ymhellach y gwaith o weithredu'r ymarfer hwn drwy ganllawiau gweithredol a fydd yn rhoi mwy o fanylion i staff wardiau a chlinigwyr ar ddefnyddio llwybrau D2RA i symud cleifion yn ddiogel drwy ysbytai ac ymlaen i wella'n ddiogel naill ai gartref neu mewn lleoliad preswyl/gofal. Bydd y canllawiau gweithredol yn helpu i sicrhau bod arferion D2RA yn cael eu hymgorffori'n ddiogel cyn gynted â phosib mewn llwybr claf.

Bydd datblygu'r canllawiau ategol hyn yn cael ei wneud gan grŵp arbenigol sy'n cynnwys cydweithwyr iechyd yn ogystal â chynrychiolwyr awdurdodau lleol, partneriaid gwaith cymdeithasol a rhanddeiliaid ehangach i sicrhau eu bod yn cael eu cydgynhyrchu. Y nod yw y bydd y Canllawiau Gweithredol hyn ar gael erbyn Hydref 2022, cyn y gaeaf.

**Goblygiadau ariannol:**

Dim

**Argymhelliad 6.** Dylai Llywodraeth Cymru egluro sut y gosodwyd y targedau a nodir yn natganiad y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar 19 Mai 2022 ar ofal brys a gofal mewn argyfwng a'r Rhaglen Chwe Nod i gael gwared ag oedi o dros bedair awr wrth drosglwyddo cleifion o ambiwlansys a sicrhau lleihad o 25% (o'r lefel ym mis Hydref 2021) yn yr amser cyfartalog sy'n cael ei golli gan ambiwlans. Dylai hefyd gadarnhau'r dyddiadau targed ar gyfer cyflawni'r targedau hyn.

Ymateb Llywodraeth Cymru:

**Derbyn**

Yng nghyfarfod Cyd-bwyllgor y Pwyllgor Gwasanaethau Ambiwlans Brys ar 9 Tachwedd 2021, ymrwymodd pob un o'r saith bwrdd iechyd – fel cyd-gomisiynwyr ac aelodau'r pwyllgor – i wella yn erbyn dau nod fel man cychwyn i leihau oedi wrth drosglwyddo cleifion o ambiwlansys:

- Ni fydd unrhyw drosglwyddo claf o ambiwlans yn cymryd mwy na 4 awr
- Byddwn yn lleihau'r amser cyfartalog sy'n cael ei golli fesul claf 25% o lefel Hydref 2021 ar bob safle (o 72 munud i 54 munud ar lefel Cymru gyfan)

Mae'r cofnodion (Saesneg yn unig) wedi'u cadarnhau o'r cyfarfod hwn i'w gweld YMA.

Dylid nodi nad yw'r nodau hyn yn gyfystyr â thargedau ar hyn o bryd, oherwydd cydnabyddir y bydd maint yr her yn amrywio yn ôl safle. Gallai ambell safle fod angen cymorth wedi'i dargedu'n well gan Brif Gomisiynydd y Gwasanaethau Ambiwlans a'i dîm.

Mae Prif Gomisiynydd y Gwasanaethau Ambiwlans wedi gweithio gyda byrddau iechyd i ddatblygu cynlluniau gwella trosglwyddo cleifion o ambiwlansys, gan gynnwys taflwybrau ar gyfer gwella, ar gyfer pob adran achosion brys yng Nghymru i ffurfioli ymrwymiadau byrddau iechyd i'r nodau hyn a chamau gweithredu ehangach i wella prydlondeb trosglwyddo cleifion o ambiwlansys.

Rydym wedi dechrau gweld gwelliant o ran amserau trosglwyddo cleifion mewn rhai ardaloedd, ond disgwyliwn weld gwelliannau pellach yn cael eu llywio gan gynlluniau byrddau iechyd i wella trosglwyddo cleifion. Bydd swyddogion yn ceisio sicrwydd ynghylch cydymffurfiaeth yn erbyn y nodau hyn a'u cyflawni yn erbyn y cynlluniau gwella trosglwyddo cleifion drwy gynnal cyfarfodydd Ansawdd, Cynllunio a Chyflawni

Integredig rheolaidd gyda phob bwrdd iechyd. Byddant hefyd yn cael eu hadolygu'n ffurfiol ym mis Medi 2022, fel rhan o adroddiad blynyddol y Pwyllgor Gwasanaethau Ambiwlans Brys.

Mae Prif Gomisiynydd y Gwasanaethau Ambiwlans a'i dîm yn gweithio gyda byrddau iechyd ac Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru i ddarparu cynllun gwella integredig newydd a gwell ar gyfer gwasanaethau ambiwlans. Disgwyliwn weld y cynllun hwn yn canolbwyntio'n glir ar gamau gweithredu ar y cyd i wella amseroedd ymateb a lleihau oedi wrth drosglwyddo cleifion mewn ysbytai, yn ogystal â rheoli pobl yn y gymuned yn well.

**Goblygiadau ariannol:**

Rydym yn buddsoddi £3m yn ychwanegol i helpu Gwasanaeth Ambiwlans Cymru i gynyddu ei gapasiti ymateb cyn gynted â phosibl drwy recriwtio rhwng 100-150 o staff rheng flaen. Mae'r cyllid hwn yn ychwanegol at £1.8m o gyllid untro gan y Pwyllgor Gwasanaethau Ambiwlans Brys yn gynharach eleni i barhau gyda chymorth Ambiwlans Sant Ioan Cymru a darparu capasiti ychwanegol arall i ateb y galw.

Rydym hefyd wedi sicrhau bod cyllideb flynyddol o £25m ar gael ar gyfer cyflawni yn unol â'r Chwe Nod ar gyfer Gofal Brys a Gofal mewn Argyfwng, gyda byrddau iechyd ac ymddiriedolaethau'r GIG yn gallu cael gafael ar hyd at £20m ohono eleni. Bydd pob bwrdd iechyd yn cael hyd at £2.96m tuag at gyflawni eu cynlluniau rhaglenni lleol a bydd Cronfa Arloesi a Chyflawni Rhaglenni Chwe Nod ar gyfer Gofal Brys a Gofal mewn Argyfwng gwerth £4m ar gael ar gyfer prosiectau a gydlynir yn genedlaethol.

**Argymhelliad 7.** Dylai Llywodraeth Cymru gynyddu'r cyllid ar gyfer gwasanaethau ailalluogi a therapi cartref a gweithio gyda phartneriaid i sefydlu gwasanaeth adsefydlu cofleidiol cynhwysfawr.

Ymateb Llywodraeth Cymru:

**Derbyn**

Mae buddsoddiad eisoes wedi'i ddarparu i ehangu a gwella Ailalluogi ac Adsefydlu a'r ystod lawn o ymyriadau yn y gymuned gan Weithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd. Mae buddsoddiad o'r Gronfa Integreiddio Rhanbarthol, y cyllid ailosod ac adfer a'r pedair rhaglen genedlaethol wedi'i ddarparu i iechyd a gofal cymdeithasol dros y flwyddyn ddiwethaf. Yn ogystal, mae'r Rhaglen Genedlaethol ar gyfer Gofal a Gynlluniwyd wedi nodi'r angen am fwy o ragsefydlu ac adsefydlu ac rydym yn ystyried ymgorffori adsefydlu cymunedol ymhellach. Mae'r Fframwaith Adsefydlu Cenedlaethol yn cael ei ddiweddaru ac mae'r rhaglen Fframwaith Proffesiynau Perthynol i Iechyd yn gweithio gyda'r pedair rhaglen genedlaethol i edrych sut i wella argaeledd Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd a grwpiau eraill o'r gweithlu i ddarparu mwy o ailalluogi ac adsefydlu yn y cartref.

**Goblygiadau ariannol:**

Dim

**Argymhelliad 8.** Dylai Llywodraeth Cymru nodi sut y bydd yn gweithio gyda byrddau iechyd a phartneriaid eraill i sicrhau bod mwy o gyfleusterau cam-i-fyny/cam-i-lawr mwy priodol ar gael ledled Cymru.

Ymateb Llywodraeth Cymru:

**Derbyn mewn egwyddor**

Mae gofal canolraddol yn derm ymbarél ar gyfer amrywiaeth o wasanaethau gyda phum prif fodel neu swyddogaeth gwasanaeth gyda diffiniadau sefydledig (Rhwydwaith Meincnodi'r GIG – Codi safonau drwy rannu rhagoriaeth, darparu tystiolaeth a mewnwelediad ac Overview | Intermediate care including reablement | Guidance | NICE). Fe'i darperir mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys cyfleusterau gwely ar gyfer gofal cam-i-fyny a gofal cam-i-lawr.

Yng Nghymru, mae cydbwysedd y ddarpariaeth yn dal i fod wedi'i ystumio tuag at ddefnyddio gofal canolraddol ar gyfer gofal cam-i-lawr ôl-acíwt neu droi o amgylch yn y 'drws ffrynt'. Mae gofal canolraddol cam-i-fyny yn hanfodol i helpu i gadw pobl gartref ac osgoi derbyniadau y mae modd eu hatal, ond mae'n gallu, ac mae yn, dod â phwysau yn ei sgil wrth i adnoddau gael eu dargyfeirio i gefnogi rhyddhau cleifion a gwella llif i'r cam gofal nesaf drwy orddefnyddio cyfleusterau gwely canolraddol sy'n cael eu llenwi gan bobl sy'n camu i lawr o'r ysbyty.

Mae cydbwysedd gofal canolraddol cam-i-fyny a cham-i-lawr yn bwysig er mwyn i'r gwasanaethau hyn hwyluso llif yn effeithiol ar draws y system gyfan a sicrhau'r canlyniadau gorau posibl i bobl. Mae derbyn yr argymhelliad hwn mewn egwyddor yn seiliedig ar y syniad bod angen taro'r cydbwysedd cywir; gall hyn fod yn gynnydd yn y cyfleusterau gwely sydd ar gael neu efallai ddim. Nid cynyddu'r cyfleusterau cam-i-lawr sydd ar gael yw'r ateb diofyn felly, ond lle mae angen hyn, bydd angen i bob un ohonom weithio gyda'n gilydd, gan gynnwys Llywodraeth Cymru, i sicrhau bod hynny'n cael ei gyflawni mewn ffordd sy'n gwella canlyniadau a phrofiad y bobl hynny y mae angen y lefel hon o ofal a chymorth arnynt.

Mae hyn yn rhan ganolog o'n Rhaglen Gofal Brys a Gofal mewn Argyfwng a'n rhaglen Rhyddhau i Adfer ac yna Asesu. Er i hyn gael ei gyflwyno gyntaf fel rhan o'n canllawiau ar ryddhau cleifion o'r ysbyty wrth ymateb i Covid, mae'n parhau i fod yn bolisi gennym ac mae'n rhan annatod o'n rhaglen Chwe Nod ar gyfer Gofal Brys a Gofal mewn Argyfwng.

**Goblygiadau ariannol:**

Dim goblygiadau ariannol ychwanegol wedi'u nodi

**Argymhelliad 9.** Dylai Llywodraeth Cymru ddarparu rhagor o fanylion am faint a gaiff ei fuddsoddi mewn llety gofal canolraddol a chyfleusterau cam-i-fyny/cam-i-lawr o ganlyniad i'r Gronfa Tai â Gofal

Ymateb Llywodraeth Cymru:

**Derbyn**

Mae'r argymhelliad hwn yn gysylltiedig ag argymhellion 7 ac 8, ac felly mae'n rhaid ei ystyried ar y cyd â'r rhain. Dylai sicrhau'r cydbwysedd cywir o gam-i-fyny a cham-i-lawr gartref ac mewn cyfleusterau gwely ac egwyddorion 'gartref yn gyntaf' ddylai fod y sefyllfa ddiofyn bob amser. I rai, darparu gofal canolraddol mewn cyfleuster gwely fydd y dewis gorau posibl fel cam tuag at ddychwelyd i'w cartref eu hunain, neu am gyfnod o asesu i sicrhau bod anghenion gofal hirdymor yn cael eu hasesu'n llawn er mwyn sicrhau bod y ddarpariaeth briodol ar gyfer yr anghenion hynny yn cael ei rhoi ar waith. Boed hynny'n ddarpariaeth cam-i-fyny i ddarparu'r gofal gorau posibl i rywun sydd angen rhywfaint o gymorth am gyfnod cyfyngedig ar adeg o argyfwng neu angen brys ond lle nad oes angen gofal ysbyty acíwt neu le nad yw'n briodol, neu gam-i-lawr i hwyluso trosglwyddo amserol o'r ysbyty pan fydd rhywun mewn cyflwr sydd wedi'i optimeiddio'n feddygol; mae cyfleusterau gwely gofal canolraddol yn elfen hanfodol o'r pum swyddogaeth neu fodel o ddarpariaeth gofal canolraddol gyffredinol. Bydd angen i'r rhain ddarparu digon o adsefydlu ac ailalluogi er mwyn i bobl wella'n llwyr.

Bydd angen felly i ddeall capasiti a'r galw am ofal canolraddol ar sail cyfleusterau gwely, a lefel y buddsoddiad sydd ei angen i gefnogi hyn, fod yn elfen allweddol o'r ffordd y caiff y Gronfa Tai â Gofal ei rheoli, a chefnogir y ddealltwriaeth hon drwy allu defnyddio'r modelu capasiti a galw presennol sydd eisoes ar waith fel rhan o lwybrau D2RA a gwaith seilwaith cymunedol o fewn y Rhaglen Strategol ar gyfer Gofal Sylfaenol. Fodd bynnag, er mwyn cydnabod yr angen sylweddol am lety gofal canolraddol, mae canllaw'r Gronfa Tai â Gofal (HCF) yn nodi y dylid buddsoddi o leiaf 20% o ddyraniad cyllid HCF blynyddol Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol mewn llety gofal canolraddol.

**Goblygiadau ariannol:**

Dim wedi'u nodi

**Argymhelliad 10.** Dylai Llywodraeth Cymru egluro ei disgwyliadau o ran argaeledd gweithwyr proffesiynol perthynol i iechyd mewn gwahanol leoliadau iechyd a gofal, a nodi sut y bydd yn gweithio gyda byrddau iechyd i gynyddu presenoldeb gweithwyr proffesiynol o'r fath wrth "ddrws blaen" gwasanaethau, yn enwedig meddygfeydd ac adrannau damweiniau ac achosion brys. Wrth wneud hynny, dylai Llywodraeth Cymru nodi sut yr eir i'r afael ag unrhyw rwystrau rhag cynyddu argaeledd gweithwyr proffesiynol perthynol i iechyd, gan gynnwys yr angen am unrhyw fuddsoddiad cyfalaf mewn ystadau neu gyfleusterau.

Ymateb Llywodraeth Cymru:

**Derbyn**

Mae'r Fframwaith Proffesiynau Perthynol i Iechyd: Edrych Ymlaen Gyda'n Gilydd yn pennu'r weledigaeth ar gyfer trawsnewid gwasanaethau Gweithwyr Proffesiynol

Perthynol i Iechyd, gan gynnwys gwella mynediad, cyfran fwy o'r gweithlu mewn gwasanaethau sylfaenol a chymunedol, a chynnydd mewn adsefydlu cymunedol. Mae Llywodraeth Cymru yn ariannu Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC) i ddarparu Rhaglen Genedlaethol ar gyfer y Fframwaith Proffesiynau Perthynol i Iechyd i drawsnewid mynediad at sgiliau arbenigol gweithwyr proffesiynol perthynol i iechyd sy'n gallu cefnogi ymyrraeth gynnar ac ymyriadau iechyd y cyhoedd i wella canlyniadau iechyd y boblogaeth. Mae'n fwriad hefyd i'r rhaglen gynyddu mynediad at adsefydlu ac ailalluogi yn y gymuned, gan ganiatáu gofal yn agosach i gartrefi pobl.

Mae'r Arweinydd Proffesiynau Perthynol i Iechyd Cenedlaethol ar gyfer Gofal Sylfaenol a Chymunedol yn aelod o dîm y Rhaglen Strategol ar gyfer Gofal Sylfaenol, ac mae'n arwain gwaith i ddatblygu cydweithrediadau Proffesiynau Perthynol i Iechyd fel rhan o'r Seilwaith Cymunedol a'r Rhaglen Datblygu Clystyrau ar Garlam. Maent yn gweithio gyda grŵp arwain Proffesiynau Perthynol i Iechyd Gofal Sylfaenol cenedlaethol i gytuno ar y ffordd orau o gefnogi'r Grwpiau Cynllunio Clystyrau Cyfan i gomisiynu gwasanaethau broffesiynol lluosog ar gyfer poblogaeth benodol.

Mae rolau newydd ar gyfer Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd mewn gwasanaethau sylfaenol a chymunedol yn cael eu sefydlu a'r weledigaeth yw mai'r gymuned fydd y lle arferol i ymarfer y rhan fwyaf o'r gweithwyr hyn. Mae Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC) yn cynnal Gweithiwr Proffesiynol Perthynol i Iechyd Cenedlaethol ar gyfer Iechyd Cyhoeddus ac Atal i arwain ffyrdd newydd o weithio a gweithredu nodau iechyd cyhoeddus proffesiynau perthynol i iechyd y DU, sy'n canolbwyntio'n gryf ar atal.

Rydym yn parhau i ddarparu'r lefelau uchaf erioed o fuddsoddiad mewn hyfforddiant ac addysg i weithwyr iechyd proffesiynol, ac mae mwy o leoedd hyfforddi ar gael nag erioed o'r blaen. Er enghraifft, mae nifer y therapyddion galwedigaethol dan hyfforddiant wedi cynyddu dros hanner ers 2016 ac mae nifer y lleoedd hyfforddi ffisiotherapyddion wedi cynyddu 30% ers 2017.

Bydd y rhaglen i ddarparu cenhedlaeth newydd o ganolfannau iechyd a gofal cymdeithasol integredig yn darparu'r gofod hyblyg a modern sydd ei angen ar broffesiynau perthynol i iechyd mewn lleoliad gofal sylfaenol. Bydd y rhaglen yn pwyso ar amrywiaeth o ffynonellau ariannu ond mae cymorth eisoes ar gael drwy'r Gronfa Gyfalaf Integreiddio ac Ailgydbwyso sy'n darparu £50m o gyllid eleni, £60m y flwyddyn nesaf a £70m yn 24/25.

**Goblygiadau ariannol:**

Dim goblygiadau ariannol ychwanegol ar hyn o bryd y tu hwnt i'r rhai a nodwyd uchod

**Argymhelliad 11.** Mae angen i waith y grŵp gorchwyl a gorffen ar leoliadau gofal preswyl interim gael ei wneud fel mater o frys. Dylai Llywodraeth Cymru gyhoeddi amserlen ar gyfer y gwaith hwn ac ymrwymo i gyhoeddi'r canlyniadau pan fydd y gwaith wedi'i gwblhau, gan gynnwys cynllun clir ar gyfer bwrw ymlaen ag unrhyw argymhellion.

Ymateb Llywodraeth Cymru:

**Derbyn**

Mae gwaith yn parhau er mwyn cynyddu capasiti'r system iechyd a gofal cymdeithasol i ymateb i'r galw ychwanegol sy'n cael ei ddisgwyl yn ystod y gaeaf i ddod. Y garreg filltir gychwynnol yw mis Hydref eleni, a'n nod yw cael capasiti ychwanegol ar waith gyda mwy o ddarpariaeth 'cam-i-lawr' yn amcan sylfaenol. Mae'r grŵp gorchwyl a gorffen yn llywio'r gwaith hwn ar sail weithredol gyda phartneriaid yn hytrach na datblygu argymhellion.

**Goblygiadau ariannol:**

Dim. Bydd unrhyw gostau ychwanegol yn dod o gyllidebau rhaglenni presennol.

**Argymhelliad 12.** Rhaid cyflwyno diwygiadau sylweddol i gyflog ac amodau gwaith staff gofal cymdeithasol yn gyflym. Erbyn diwedd 2022, dylai Llywodraeth Cymru ddarparu diweddariad ar y gwaith a wnaed i wella cyflog, telerau ac amodau a chyfleoedd i ddatblygu gyrfa ar gyfer y gweithlu gofal cymdeithasol, a mynd i'r afael ag anghydraddoldebau â'u cymheiriaid yn y GIG. Dylai hyn gynnwys diweddariad ar gyflwyno strwythur tâl cenedlaethol ar gyfer gofal hefyd.

Ymateb Llywodraeth Cymru:

**Derbyn**

Rydym eisoes wedi cymryd nifer o gamau i edrych ar gyflogau ac amodau gwaith gofal cymdeithasol:

- Mae cyflwyno'r Cyflog Byw Go Iawn i weithwyr gofal cymdeithasol wedi bod yn flaenoriaeth i Lywodraeth Cymru ac yn ymrwymiad allweddol yn ein rhaglen lywodraethu er mwyn datblygu economi sy'n seiliedig ar egwyddorion gwaith teg, cynaliadwyedd a diwydiannau a gwasanaethau'r dyfodol.
- Roedd angen cymorth brys ar y sector i fynd i'r afael â phroblemau recriwtio a chadw staff, a oedd wedi'u gwaethygu gan yr heriau eithafol a gyflwynwyd yn ystod y pandemig Covid. Darparwyd £43m o gyllid i Awdurdodau Lleol a Byrddau Iechyd ar gyfer 2022/23, i gyflawni ein hymrwymiad i gyflwyno'r cyflog byw go iawn i weithwyr gofal cymdeithasol yng Nghymru.
- Rydym wedi gweithio gyda phartneriaid a rhanddeiliaid i'w roi ar waith yn llwyddiannus, ac wrth ddatblygu canllawiau sy'n cefnogi Awdurdodau Lleol, Byrddau Iechyd, comisiynwyr a chyflogwyr.
- Mae holl ymdrechion y Fforwm Gwaith Teg Gofal Cymdeithasol wedi canolbwyntio ar welliannau cynnar i gyflogau, gan fod aelodau wedi bod yn edrych ar sut i fwrw ymlaen â'r Cyflog Byw Go Iawn. Bydd y Fforwm nawr yn ceisio gwneud cynnydd buan ar ei flaenoriaethau eraill.
- Mae'r Cyflog Byw Go Iawn yn fan cychwyn ar gyfer gwell telerau ac amodau ar gyfer gweithwyr gofal cymdeithasol, ond nid dyna'r pen draw. Mae hwn yn ymrwymiad hirdymor a byddwn yn parhau i weithio mewn partneriaeth drwy'r Fforwm Gwaith Teg Gofal Cymdeithasol i sicrhau ei fod yn arwain at newid cynaliadwy, hirdymor.

- Mae'r Fforwm wedi blaenoriaethu rhai meysydd o ran gwaith teg yn y sector, ac un ohonynt yw datblygu fframwaith cyflog a chamu ymlaen ar gyfer gweithwyr gofal cymdeithasol, sy'n cael ei ddatblygu ar hyn o bryd. Bydd y Fforwm yn cyhoeddi diweddariad am y cynnydd sy'n cael ei wneud o ran eu blaenoriaethau allweddol erbyn diwedd 2022.

**Goblygiadau ariannol:**

Nodir y goblygiadau ariannol yn y pwyntiau uchod – bydd y rhain yn cael eu talu o'r cyllidebau presennol.

**Argymhelliad 13.** Erbyn diwedd 2022, dylai Llywodraeth Cymru ddarparu diweddariad am y gwaith sydd wedi'i wneud i fynd i'r afael â thâl salwch ar gyfer gweithwyr gofal cymdeithasol ac amlinelliad o waith arfaethedig y Fforwm Gwaith Teg Gofal Cymdeithasol (gan gynnwys amserlenni).

<u>Ymateb Llywodraeth Cymru:</u>

**Derbyn**

Cyflwynwyd y Cynllun Ychwanegiad at Dâl Salwch Statudol COVID-19 ar 1 Tachwedd 2020 i ddarparu cymorth ariannol i weithwyr gofal cymdeithasol sy'n gorfod hunanynysu neu aros o'r gwaith yn unol â'r canllawiau cyfredol. Mae'n sicrhau bod staff yn y sector gofal cymdeithasol yn cael 100% o'u cyflog arferol yn eu pecyn cyflog (yn ddi-oed) pan mae'n ofynnol iddynt aros o'r gwaith oherwydd eu bod yn profi'n bositif neu'n cael eu henwi fel cyswllt ag achos positif. Mae'n darparu cyllid i gyflogwyr dalu cyflog llawn i weithwyr am absenoldebau cymwys. Mae angen i'r absenoldebau hyn fod yn unol â chanllawiau cyfredol Llywodraeth Cymru i leihau'r risg o drosglwyddo. Mae'r cynllun yn cydnabod nad yw'r rhan fwyaf o weithwyr gofal cymdeithasol yn y sector annibynnol yn derbyn tâl salwch galwedigaethol. Mae hyn yn dileu'r anfantais ariannol i weithwyr gofal cymdeithasol o aros o'r gwaith i amddiffyn ein dinasyddion mwyaf agored i niwed.

Mae absenoldebau sy'n gymwys o dan y cynllun wedi cadw i fyny â'r newidiadau o ran gofynion hunanynysu. Cyflwynwyd y cynllun wrth i Weinidogion gydnabod mai dim ond Tâl Salwch Statudol yr oedd y rhan fwyaf o weithwyr gofal cymdeithasol yn ei dderbyn pan oedd angen iddynt aros o'r gwaith oherwydd COVID-19, neu nad oeddent yn cael unrhyw incwm o gwbl os nad oeddent yn gymwys i dderbyn Tâl Salwch Statudol. Mae hwn yn gynllun penodol ar gyfer gweithwyr gofal cymdeithasol. Roedd y cynllun Taliad Cymorth Hunanynysu hefyd ar gael i weithwyr gofal cymdeithasol hyd at ddiwedd y cynllun hwnnw ar 30 Mehefin 2022. Gallai staff ddewis hawlio o'r naill gynllun neu'r llall.

Yn ddiweddar, mae Gweinidogion wedi ymestyn y Cynllun Ychwanegiad at Dâl Salwch Statudol tan 31 Awst 2022, a byddant yn adolygu'r cynllun eto pan fydd penderfyniadau'n cael eu gwneud ynghylch trefniadau profi a chynlluniau eraill ar gyfer yr hydref/gaeaf.

Mae'r Fforwm Gwaith Teg Gofal Cymdeithasol wedi ymrwymo i gydweithio i ddylanwadu ar flaenoriaethau a pholisi cenedlaethol o ran gwaith teg yn y sector gofal cymdeithasol yng Nghymru ac i weithio'n uchelgeisiol ac yn bragmatig i gyflawni newid ymarferol a gweithredol. Mae wedi blaenoriaethu rhai meysydd o ran gwaith teg yn y sector:

- Talu'r Cyflog Byw Go Iawn i'r holl staff gofal cymdeithasol yn y man lleiaf;
- Datblygu fframwaith cyflog a chamu ymlaen ar gyfer staff gofal cymdeithasol;
- Penderfynu sut y gallai model o gydfargeinio weithredu yn y sector;
- Archwilio rôl a phrofiadau Cynorthwywyr Personol mewn gofal cymdeithasol a'u gallu i gael gafael ar waith teg;
- Cefnogi amgylcheddau gwaith diogel, iach a chynhwysol ym maes gofal cymdeithasol;
- Deall effaith oriau nad ydynt wedi'u gwarantu ar weithwyr, ac i ba raddau y mae gan weithwyr wybodaeth am eu hawliau a'u gallu i weithredu'r hawliau hynny.

Bydd y Fforwm yn cyhoeddi diweddariad am y cynnydd sy'n cael ei wneud o ran y blaenoriaethau allweddol hyn erbyn diwedd 2022.

**Goblygiadau ariannol:**

Dim goblygiadau ariannol ychwanegol wedi'u nodi.

**Argymhelliad 14.** Dylai Llywodraeth Cymru egluro sut y bydd yn cynyddu recriwtio i'r sector gofal cymdeithasol. Hefyd, dylai gynnal gwerthusiad cadarn o ymgyrch recriwtio Gofalwn.Cymru i ddangos ei bod wedi darparu gwerth am arian ac wedi cynyddu nifer gwirioneddol y ceisiadau am swyddi gofal cymdeithasol a'r nifer sy'n ymgymryd â rolau gofal Cymdeithasol.

Ymateb Llywodraeth Cymru:

**Derbyn**

Y cymhelliant y tu ôl i ymgyrch recriwtio a chadw Gofalwn.Cymru yw cynyddu nifer y bobl sy'n derbyn swyddi ym maes gofal cymdeithasol ac yn aros yn eu swyddi. Hyd yma, prif gysyniad yr ymgyrch oedd hyrwyddo gwerth gyrfaoedd ym maes gofal cymdeithasol er mwyn cynyddu'r canfyddiad o statws rolau o'r fath.

Yn amlwg, cyd-destun yr ymgyrch recriwtio yw marchnad lafur gystadleuol iawn gyda swyddi mewn sectorau eraill yn cynnig gwaith gyda mwy o gyflog a llai o gyfrifoldeb personol. Mae'r rhain yn ffactorau arwyddocaol sy'n nacáu dyfarniad achos ac effaith uniongyrchol. Fodd bynnag, mae gwerthusiad parhaus o weithgarwch wedi datgelu llwyddiant nodedig wrth yrru traffig i borth swyddi Gofalwn.Cymru, sef amcan cyffredinol yr ymgyrch.

Mae'r dadansoddiad hwn o weithgarwch diweddar wedi dangos mwy o ymweliadau â gwefan Gofalwn.Cymru yn ei chyfanrwydd, ac yn arbennig â thudalennau swyddi'r wefan. Cadwyd cofnod cyson o ddefnyddwyr newydd y wefan yn ystod cyfnodau'r gweithgarwch hefyd: 79% ym mis Rhagfyr 21-Ionawr 22, a 157% ym mis Mawrth-Ebrill 22.

Rydym hefyd wedi gweithio gyda Gofal Cymdeithasol Cymru i lunio arolwg ar gyfer gweithwyr gofal cymdeithasol newydd eu penodi, a hwnnw'n cael ei gynnal rhwng mis Ebrill a diwedd mis Mehefin 2022. Mae'r canlyniadau interim sy'n cael eu trafod yma yn seiliedig ar 494 o ymatebwyr. Roedd bron i hanner yr ymatebwyr heb weithio ym maes gofal cymdeithasol o'r blaen. Roedd traean o'r ymatebwyr yn cofio gweld hysbysebion Gofalwn.Cymru ac o'r rhai hynny, y teledu a chyfryngau cymdeithasol oedd y cyfryngau a nodwyd amlaf o bell ffordd. Nododd tua hanner y rhai a oedd yn cofio gweld yr hysbysebion eu bod wedi ysgogi diddordeb ynddynt mewn gweithio ym maes gofal cymdeithasol a bod yr hysbyseb yn gynrychiolaeth realistig o ofal cymdeithasol. Nododd 60% fod yr hysbysebion yn gwneud iddynt deimlo'n fwy cadarnhaol am ofal cymdeithasol.

Nododd dros ddwy ran o dair o'r ymatebwyr eu bod yn gweithio ym maes gofal cymdeithasol am eu bod yn mwynhau helpu a chefnogi pobl. Ar ôl hynny, y rheswm mwyaf tebygol nesaf yw bod pobl yn mwynhau gweithio yn eu tîm. Nododd tua chwarter y bobl hefyd eu bod yn dewis gweithio ym maes gofal cymdeithasol oherwydd bod yr oriau yn gyfleus. Bydd y ddealltwriaeth hon yn cael ei chyfuno ag argymhellion o werthusiad o'r gweithgarwch i dargedu gwaith ymgyrchu yn y dyfodol yn strategol, a'i fireinio, er mwyn sicrhau'r effeithiolrwydd mwyaf posibl.

Rydym yn monitro llwyddiant pob sianel yn gyson er mwyn sicrhau'r gwerth gorau ar fuddsoddiad. Rydym yn ymwybodol bod hysbysebion cyfryngau cymdeithasol wedi'u targedu ac hysbysebion peiriannau chwilio ar y rhyngrwyd yn sicrhau gwerth da am arian, ond hefyd bod nifer cynyddol o ymwelwyr â'r tudalennau swyddi, sy'n arwydd uniongyrchol bod cyfryngau eraill wedi llwyddo i hybu ymwybyddiaeth o'r porth swyddi a phrocio cof pobl.

Yn ogystal â monitro data a chanlyniadau'r gweithgarwch unigol, bydd y paramedrau ar gyfer gwerthuso pellach yn cynnwys archwilio llwyddiant yr ymgyrch gyffredinol ac unrhyw feysydd i'w datblygu. Byddwn yn ystyried argymhellion o'r gwaith hwn er mwyn cwblhau'r cynlluniau strategol hirdymor o amgylch yr agenda hon, yn seiliedig ar y ddealltwriaeth ddiweddaraf hon.

Rydym hefyd yn cynnwys ffactorau sy'n effeithio ar recriwtio a chadw staff yng nghylch gwaith y gwerthusiad o effaith y Cyflog Byw Go Iawn, sy'n cynnwys darn o waith gan y Ganolfan Dystiolaeth COVID-19 a fydd ar gael yn yr hydref.

**Goblygiadau ariannol:**

Ni nodwyd unrhyw gostau sylweddol ychwanegol wrth ymgymryd â'r camau gweithredu a nodir uchod. Rhagwelir y bydd unrhyw gostau'n cael eu talu o gyllidebau presennol.

**Argymhelliad 15.** Dylai Llywodraeth Cymru weithio gydag awdurdodau lleol i adolygu sut mae gwybodaeth am daliadau uniongyrchol yn cael ei chyfleu i ddefnyddwyr gofal cymdeithasol a'u gofalwyr, a datblygu ymgyrch wybodaeth wedi'i thargedu i godi ymwybyddiaeth o daliadau uniongyrchol. Fel rhan o'i hymateb i'r argymhelliad hwn, dylai Llywodraeth Cymru roi gwybod pryd y mae'n disgwyl i'r gwaith hwn gael ei gwblhau.

Ymateb Llywodraeth Cymru:

**Derbyn**

Mae cael gwybodaeth glir a chyson yn hanfodol i alluogi pobl i ystyried a phenderfynu a yw taliad uniongyrchol yn addas ar eu cyfer.

Rydym wedi cydgynhyrchu a chyhoeddi cyngor clir a chryno am daliadau uniongyrchol gan gynnwys chwalu rhai o'r mythau a'r camsyniadau cyffredin sydd wedi datblygu. Mae angen i ni sicrhau bod pobl yn cael eu cyfeirio'n gyson at y wybodaeth honno gan ei bod yn ymddangos bod bylchau siomedig ymhlith rhai partneriaid. Mae Adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol, "Taliadau Uniongyrchol ar gyfer Gofal Cymdeithasol i Oedolion" (https://archwilio.cymru/sites/default/files/publications/Direct-payments-Cym.pdf), yn darparu tystiolaeth ddefnyddiol i ni ddiweddaru ac ategu ein hadnoddau Taliadau Uniongyrchol presennol https://gofalcymdeithasol.cymru/gwella-gwasanaethau/taliadau-uniongyrchol-canllaw.

Felly, er enghraifft, er bod ein hadnodd Taliadau Uniongyrchol eisoes yn mynd i'r afael â'r myth bod taliadau uniongyrchol yn gymhleth i'w defnyddio, gallwn ategu hynny bellach drwy dynnu sylw at dystiolaeth yr Archwilydd Cyffredinol o brofiadau cadarnhaol 78% o bobl a ddywedodd eu bod wedi cael cymorth o ansawdd da i reoli eu taliad uniongyrchol. Mae hynny'n dystiolaeth gadarnhaol iawn ond mae'n dal i gynnig meysydd i ni eu harchwilio er mwyn gwella. Mae'n ddealladwy bod profiadau pobl o daliadau uniongyrchol yn gwaethygu o beidio â sicrhau'r cydbwysedd cywir o fiwrocratiaeth.

Rydym yn parhau i ystyried sut rydym yn ehangu, yn gwella ac yn hyrwyddo'r adnodd ar y cyd hwn sy'n cefnogi ymarferwyr ac unigolion fel ei gilydd. Er enghraifft, drwy ddefnyddio rhai o'r enghreifftiau rhagorol o fywyd go iawn sy'n dangos sut y defnyddiwyd taliadau uniongyrchol yng Nghymru y mae awdurdodau lleol ac eraill fel Fforwm Rhieni a Gofalwyr Cymru Gyfan wedi'u cyhoeddi ar YouTube. Rydym hefyd yn archwilio amseriad a chynnwys posibl gweithgarwch penodol i hyrwyddo taliadau uniongyrchol.

Mae Adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol hefyd yn cynnwys nifer o argymhellion i awdurdodau lleol wella'r modd o ddarparu gwybodaeth i bobl, yn ogystal â thrwy'r gweithlu. Un agwedd y byddwn am ei harchwilio ymhellach yw'r hyn y mae'r Archwilydd Cyffredinol yn ei ddisgrifio fel *"nodweddion awdurdod lleol sy'n annog pobl, yn eu rheoli ac yn eu cefnogi'n effeithiol i ddefnyddio Taliadau Uniongyrchol".*

At ei gilydd, rydym yn parhau i archwilio sut y gallwn atgyfnerthu hawliau ar y cyd i wella cysondeb y dull gweithredu a'r cynnig ynghylch taliadau uniongyrchol sy'n sicrhau tegwch heb wanhau llais a rheolaeth unigol.

**Goblygiadau ariannol:**

Rhagwelir y bydd unrhyw gostau'n cael eu talu o gyllidebau presennol.

**Argymhelliad 16.** Dylai Llywodraeth Cymru roi diweddariad i'r Senedd ynghylch a yw wedi penderfynu datblygu a chyflwyno system llwybr carlam ar gyfer taliadau uniongyrchol i ofalwyr, gan ystyried unrhyw argymhellion perthnasol a wneir gan Archwilydd Cyffredinol Cymru yn dilyn ei adolygiad o daliadau uniongyrchol. Os bydd system o'r fath yn cael ei chyflwyno, dylai Llywodraeth Cymru nodi sut y byddai hynny'n cael ei wneud a phryd. Os bydd yn penderfynu peidio â bwrw ymlaen, dylai Llywodraeth Cymru nodi sut mae'n bwriadu gwella mynediad at gymorth i ofalwyr di-dâl.

Ymateb Llywodraeth Cymru:

**Derbyn mewn egwyddor**

Rydym yn llwyr gydnabod ac yn cefnogi'r bwriad sy'n sail i argymhelliad y Pwyllgor a'r canlyniad y mae'n ceisio'i gyflawni. Mae'n adlewyrchu ac yn atgyfnerthu'n llwyr y fframwaith cynhwysfawr a chefnogol a roddwyd ar waith ar gyfer gofal cymdeithasol, ac sy'n grymuso ac yn galluogi awdurdodau lleol i ymateb mewn ffordd amserol a chymesur sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn. Byddwn yn parhau i edrych ar yr argymhelliad hwn ochr yn ochr â'n gwaith ymgysylltu a'n gweithgarwch parhaus i gefnogi gofalwyr yng Nghymru a'n gwaith mewn ymateb i Argymhellion 18 a 24.

Mae Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru, Taliadau Uniongyrchol ar gyfer Gofal Cymdeithasol i Oedolion (https://archwilio.cymru/sites/default/files/publications/Direct-payments-Cym.pdf) yn darparu tystiolaeth glir o effaith gadarnhaol ymarferwyr a thaliadau uniongyrchol ar fywydau pobl:

> *"Ar y cyfan, mae gan y derbynyddion Taliadau Uniongyrchol a ymatebodd i'n harolwg ni farn gadarnhaol ynglŷn â phrosesau asesu awdurdodau lleol; yr amser a dreulir gan staff awdurdodau lleol yn egluro cyfrifoldebau cyflogwr; a'r sgwrs 'Yr Hyn sy'n Bwysig'." (paragraff 1.11).*

Ond mae'r Adroddiad hefyd yn glir:

> *"Nid ar chwarae bach y mae dechrau cyflogi Cynorthwyydd Personol ac mae angen i bobl sy'n mynd ar drywydd yr opsiwn yma fod yn llwyr ymwybodol o'u cyfrifoldebau." (paragraff 2.3).*

Mae'r dystiolaeth hon yn adlewyrchu'r lefelau uchel o foddhad y mae'r rhai sy'n derbyn taliadau uniongyrchol yn adrodd i'r Archwilydd Cyffredinol ynghylch y broses asesu a chynllunio gofal; teimladau pobl am eu gallu i reoli taliad uniongyrchol; a dealltwriaeth glir o rwymedigaethau cyfreithiol bod yn gyflogwr.

Ond nid yw defnyddio taliad uniongyrchol yn gyfyngedig i'r sefyllfa o fod yn gyflogwr. Mae modd defnyddio taliadau uniongyrchol i ddiwallu unrhyw angen cymwys a aseswyd. Un enghraifft lle gallai dull mwy cymesur fod yn addas yw lle nad yw'r anghenion cymwys a aseswyd yn ei gwneud yn ofynnol i rywun gyflawni'r cyfrifoldebau cyflogaeth statudol. Yn yr enghraifft hon, byddem yn dal i ddisgwyl i ymarferydd effeithiol fuddsoddi amser yn gwrando ar farn, dymuniadau a theimladau gofalwr i gydgynhyrchu ac ystyried amrywiaeth o opsiynau i alluogi'r gofalwr hwnnw i gyflawni'r canlyniadau a nodwyd. Ni fyddai'n ymddangos yn briodol nac yn dderbyniol i unigolyn dderbyn, neu ofyn am, ymateb parod sydd wedi'i bennu ymlaen llaw gan ei awdurdod lleol. Nid yw hynny'n gyson â'n disgwyliadau cyffredin ar gyfer pobl Cymru.

Mae angen sicrhau cydbwysedd rhwng derbyn ymateb amserol ac un sy'n sicrhau bod ymarferwyr yn buddsoddi'r amser angenrheidiol a phriodol i wrando ar, a deall, yr hyn y mae'r person am ei gyflawni. Rhaid i gynllunio sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn er mwyn nodi anghenion cymwys gofalwr di-dâl barhau i fod yn brif fecanwaith i gefnogi gofalwyr di-dâl os ydym am wrando ar yr hyn sy'n bwysig iddynt, a sicrhau hefyd bod hynny'n cael ei wneud mewn ffordd gyfannol. Lle mae modd gwneud hynny'n gymesur, disgwyliwn i hynny ddigwydd.

Arian cyhoeddus yw taliadau uniongyrchol ac o'r herwydd, rydym i gyd yn disgwyl i awdurdodau lleol sicrhau bod y trefniadau llywodraethu angenrheidiol a phriodol ar waith.

**Goblygiadau ariannol:**

Dim wedi'u rhagweld.

| |
|---|
| **Argymhelliad 17.** Fel mater o frys, rhaid i Lywodraeth Cymru nodi ei chynlluniau i weithio gydag awdurdodau lleol i adfer yn llawn wasanaethau gofalwyr yr amharwyd arnynt a blaenoriaethu'r gwaith o ailagor canolfannau dydd, a rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd i'r Pwyllgor hwn cyn diwedd 2022, ynghyd â'r rhesymau dros unrhyw oedi. |

Ymateb Llywodraeth Cymru:

**Derbyn**

**Gwasanaethau Gofalwyr Di-dâl**

Mae gofalwyr di-dâl wedi dweud yn gyson fod cymryd seibiant yn eu helpu i ymdopi â phwysau eu cyfrifoldebau gofalu a helpu i reoli eu hiechyd meddwl a'u lles eu hunain. Mae eu profiadau yn ystod y pandemig wedi tanlinellu ymhellach yr angen dybryd am fodel newydd ac arloesol o opsiynau seibiant a seibiant byr ar gyfer gofalwyr di-dâl. Bydd gofalwyr o bob oed yng Nghymru yn elwa ar gronfa gwerth £9m i sefydlu cynllun newydd, gyda'r buddsoddiad tair blynedd yn cynyddu cyfleoedd i ofalwyr di-dâl gymryd seibiant o'u rôl gofalu. Mae seibiant byr yn wasanaeth, cymorth neu brofiad sy'n helpu gofalwr di-dâl i dreulio amser i ffwrdd o'i gyfrifoldebau gofalu. Bydd y cynllun newydd hwn hefyd yn cyflawni un o ymrwymiadau allweddol y Rhaglen Lywodraethu. Mae hefyd yn datblygu ar ein gwaith mewn blynyddoedd blaenorol i gefnogi gofalwyr, gan gynnwys cyllid seibiant o £3m yn 2021-22.

Mae rhai cynlluniau seibiant byr rhagorol eisoes ar waith mewn rhai ardaloedd. Er mwyn cefnogi'r gwaith o gyflwyno model llwyddiannus yng Nghymru, comisiynwyd Gwasanaeth Gwybodaeth i Ofalwyr Gogledd Ddwyrain Cymru (NEWCIS) i gynhyrchu pecyn cymorth ac adnoddau yn seiliedig ar ei fodel arobryn o gronfa seibiannau byr yn y gogledd. Bydd hyn yn galluogi mwy o ofalwyr di-dâl ledled Cymru i gael gafael ar seibiant addas, ar yr adeg iawn. Yn ogystal, comisiynwyd Ymddiriedolaeth Gofalwyr Cymru a phrifysgolion Bangor ac Abertawe i archwilio opsiynau ar gyfer gweledigaeth newydd ar gyfer seibiannau byr yng Nghymru. Cyhoeddwyd eu hadroddiad "What a Difference a Break Makes" ym mis Awst 2021. Ystyriwyd argymhellion yr adroddiad gan Grŵp Cynghori'r Gweinidog ar Ofalwyr Di-dâl, ac mae ei gyngor arbenigol wedi llywio datblygiad y cynllun newydd.

Bydd sefydliad trydydd sector yn cael ei benodi fel corff cydgysylltu cenedlaethol i sefydlu a goruchwylio'r cynllun, a bydd yn cydweithio â Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol, awdurdodau lleol a'r trydydd sector ledled Cymru i annog arloesi a hyrwyddo arfer da. Bydd y corff cenedlaethol hefyd yn sicrhau bod gan ofalwyr di-dâl gyfle cyfartal i gael gafael ar ystod o opsiynau addas i'w cefnogi i gymryd seibiant sy'n diwallu eu hanghenion. Un o egwyddorion craidd y cynllun yw bod gofalwyr yn cael eu hystyried yn unigolion, a bydd y ffocws ar gyflawni'r canlyniadau personol sy'n bwysig iddynt.

**Ailagor Cyfleoedd Dydd**

Mae Llywodraeth Cymru yn gweithio'n agos gyda Chymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru i fonitro a chefnogi'r gwaith o ailddechrau cynnal cyfleoedd dydd. Er mwyn deall y darlun presennol, cynhaliwyd arolwg ciplun arall o ailagor ym mis Mai 2021. Nododd y rhan fwyaf o awdurdodau lleol fod cyfran sylweddol o wasanaethau wedi ailddechrau, er bod y sefyllfa'n amrywio o ranbarth i ranbarth. Wrth ymateb i'r pwysau parhaus yn sgil y pandemig, mae llawer o awdurdodau'n mabwysiadu dull hybrid rhwng ailddechrau gwasanaethau mewn adeiladau a darparu cymorth yn y gymuned, gan gynnwys mewn tai â chymorth lle bo hynny'n briodol. Mae cyfyngiadau sylweddol o hyd o ran ailddechrau llawer o gyfleoedd dydd. Mae hyn yn cynnwys rheoli argaeledd staff - ar ben heriau recriwtio, mae llawer o'r staff presennol wedi cael eu hail-leoli neu'n gweithio'n fwy hyblyg er mwyn darparu gwasanaethau blaenoriaeth uchel. O'r herwydd, mae cynnal lefelau staffio ar draws gwasanaethau gofal cymdeithasol, yn enwedig mewn meysydd fel gofal cartref, yn peri cryn bryder.

Mae awdurdodau lleol yn canolbwyntio ar sicrhau bod anghenion cymorth unigol yn cael eu diwallu a bod dewisiadau'n cael eu hystyried. Bydd datblygu a darparu cyfleoedd dydd yn y dyfodol yn ystyried y manteision niferus a ddaeth i'r amlwg yn sgil addasu gwasanaethau yn ystod y pandemig, a bydd hyn yn cynnwys gwella arloesi digidol. Mae tirwedd cyfleoedd dydd yn newid, ac mae adborth gan lawer o gyfranogwyr yn ffafrio bod cymorth yn y gymuned yn parhau a thyfu. Wrth i COVID-19 barhau yn y gymuned, bydd angen i'r ddarpariaeth o wasanaethau seiliedig ar le yn y dyfodol ystyried hefyd a yw safleoedd cyn y pandemig yn addas a bod modd cadw pellter cymdeithasol a chynnal mesurau gwrth-heintio.

Rydym yn parhau i weithio gyda Chymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru i roi cymorth i awdurdodau lleol ddysgu o'r arloesi a ddatblygwyd yn yr ymateb i'r pandemig ac i ailadeiladu gwasanaethau cyfleoedd dydd cynaliadwy ar draws grwpiau poblogaeth lle bo angen. Bydd hyn yn golygu rhannu arfer da a

chefnogi datblygiad gwasanaethau sy'n cael eu cydgynhyrchu gyda chyfranogwyr a'u teuluoedd.

**Goblygiadau ariannol:**

Mae'n bosibl y bydd angen swm bach o arian i gefnogi Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru i weithio gydag awdurdodau lleol er mwyn edrych ymhellach ar ailddechrau gwasanaethau a datblygu arfer da – fodd bynnag, disgwylir bod modd i'r arian hwn ddod o'r ffrydiau ariannu presennol.

**Argymhelliad 18.** Dylai Llywodraeth Cymru gynnal adolygiad cyflym ynghylch a yw hawliau gofalwyr o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn cael eu torri yn sgil ysgwyddo mwy o gyfrifoldebau gofalu nag y gallent fod yn fodlon eu gwneud, neu'n gallu eu gwneud, oherwydd y diffyg gwasanaethau sydd ar gael. Dylid cyhoeddi canlyniadau'r adolygiad hwn i'r Pwyllgor hwn a dylent fod ar gael i'r cyhoedd.

Ymateb Llywodraeth Cymru:

**Derbyn**

Rydym yn ymwybodol iawn bod pwysau digynsail y pandemig ar y system iechyd a gofal cymdeithasol yn golygu bod llawer o ofalwyr wedi ymgymryd â chyfrifoldebau gofalu ychwanegol. Fodd bynnag, rydym bob amser wedi bod yn glir bod yn rhaid i ofalwyr allu bodloni eu hawliau o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru). Mae hyn yn cynnwys yr hawl i gael asesiad o anghenion gofalwr. Fel rhan o'r sgwrs honno, mae modd i ofalwr ddatgan nad yw'n gallu darparu gofal, neu nad yw'n dymuno darparu gofal mwyach, neu ar unrhyw adeg wedi hynny. Rhaid i awdurdodau lleol ymateb i hyn, ond rydym yn cydnabod bod bodloni'r gofyniad hwn yn heriol oherwydd y pwysau eithafol sydd ar wasanaethau ar hyn o bryd.

Fel rhan o adolygiad y Prif Swyddog Gofal Cymdeithasol o ansawdd ac effeithiolrwydd yr asesiad o anghenion gofalwyr a nodwyd yn ein hymateb i Argymhelliad 24, byddwn yn cynnal adolygiad o sut y mae hawliau gofalwyr di-dâl o dan y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant yn cael eu bodloni.

Rydym wedi bod yn gyson glir nad yw gallu pobl i ymdopi yn ystod cyfnod o argyfwng yn arwydd o'u gallu i ddarparu gofal a chymorth am gyfnodau hir. Pan ofynnir i deuluoedd ymgymryd â chyfrifoldebau ychwanegol, cyfrifoldeb awdurdodau lleol a'u partneriaid yw sicrhau bod anghenion gofal a chymorth yn cael eu diwallu'n llawn cyn gynted â phosibl. Ni ddylai fod yn gyfrifoldeb ar unigolion na'u teuluoedd a'u gofalwyr i fynd ar drywydd yr awdurdod lleol am gymorth.

Rydym yn cyflwyno mesurau newydd i fonitro llesiant gofalwyr di-dâl ac i fesur y cymorth y maent yn ei gael ar hyn o bryd. Er enghraifft, cyflwynwyd set ddata gweithgaredd a pherfformiad newydd y Fframwaith Perfformiad a Gwella yn 2020. Mae'r broses casglu data hon yn cynnwys 19 eitem ddata ar wahân ar ofalwyr di-dâl, ar gyfer gofalwyr sy'n oedolion a gofalwyr ifanc. Mae'n cynnwys cwestiynau ynghylch nifer y cysylltiadau cychwynnol, yr asesiadau a gynhaliwyd a faint o'r rhain sy'n arwain at gynllun cymorth gyda'r awdurdod lleol.

Dechreuwyd casglu'r data hwn yn 2021, gydag awdurdodau lleol yn darparu set ddata rannol. Mae cyhoeddiad nesaf y data hwn wedi'i drefnu ar gyfer gaeaf 2022/23 a bydd yn cynnwys set ddata fwy cyflawn. Bydd y wybodaeth hon yn helpu Llywodraeth Cymru a'n partneriaid i ddeall yn well maint a chyfansoddiad y boblogaeth o ofalwyr di-dâl sy'n cael eu hasesu ac yn derbyn cymorth.

Yn ogystal, mae'r Fframwaith Canlyniadau Cenedlaethol yn darparu dull cyson o fesur llesiant. Mae'r dangosyddion yn cynnig tystiolaeth ynghylch a yw'r canlyniadau llesiant cenedlaethol yn cael eu cyflawni. Maent hefyd yn darparu mesur o lesiant pobl sydd angen gofal a chymorth, a gofalwyr sydd angen cymorth. Cyhoeddwyd yr adroddiad diweddaraf ym mis Ebrill 2022 ac mae'n ceisio:

- gosod y cyfeiriad cenedlaethol i hyrwyddo llesiant pobl sydd angen gofal a chymorth a gofalwyr sydd angen cymorth yng Nghymru;
- darparu mwy o dryloywder ynghylch a yw gwasanaethau'n gwella canlyniadau llesiant i bobl sydd angen gofal a chymorth a gofalwyr sydd angen cymorth yng Nghymru, gan ddefnyddio dangosyddion cyson a chymaradwy;
- disgrifio'r canlyniadau llesiant cenedlaethol y dylai pobl sydd angen gofal a chymorth a gofalwyr sydd angen cymorth eu disgwyl er mwyn byw bywydau bodlon.

Mae cynnwys y Fframwaith Canlyniadau Cenedlaethol yn cael ei ddiweddaru ar hyn o bryd i gynnwys data newydd y Fframwaith Perfformiad a Gwella. Bydd hyn yn arwain at wybodaeth fanylach am bobl sydd angen gofal a chymorth a gofalwyr sydd angen cymorth.

Darparwyd cymorth ymarferol ac ariannol ychwanegol i ofalwyr di-dâl fel eu bod yn gallu parhau i fanteisio ar eu hawliau o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru). Fel rhan o'n hymateb brys i COVID-19 yn 2021-22, dyrannwyd £10m o gyllid ychwanegol i gefnogi gofalwyr di-dâl. Roedd hyn yn cynnwys £3m a ddyrannwyd ar draws pob un o'r 22 awdurdod lleol i roi seibiant i ofalwyr di-dâl o'u rôl gofalu. Ar y cyd â gwasanaethau seibiant preswyl a chanolfannau dydd traddodiadol, mae adroddiadau diwedd blwyddyn awdurdodau lleol yn dangos bod amrywiaeth o atebion arloesol wedi'u darparu a oedd yn diwallu anghenion unigol.

Ers mis Ionawr 2022, mae £42m wedi'i ddyrannu i gefnogi gofalwyr di-dâl. Mae hyn yn ychwanegol at y setliad ariannu blynyddol ar gyfer awdurdodau lleol drwy'r Grant Cynnal Refeniw i gefnogi eu gwaith o gyflawni eu dyletswyddau statudol a darparu gwasanaethau i ofalwyr di-dâl.

Rydym yn parhau i ddarparu cyllid i sefydliadau cenedlaethol y trydydd sector, Gofalwyr Cymru, Ymddiriedolaeth Gofalwyr Cymru, Fforwm Cymru Gyfan ac Age Cymru, drwy ein Grant i'r Trydydd Sector ar gyfer Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy. Mae'r cynllun hwn wedi cael ei ymestyn a bydd yn parhau tan 2025. Dros y pum mlynedd, byddwn wedi dyrannu £4.4m i bedwar prosiect penodol i ofalwyr. Yn 2022-23, mae £75,000 yn cael ei fuddsoddi i wella ymgysylltiad â gofalwyr di-dâl drwy ein fframwaith ymgysylltu newydd. Mae hyn yn cynnwys ffyrdd newydd o ymgysylltu â gofalwyr ifanc ac oedolion ifanc sy'n ofalwyr. Mae'r holl waith hwn yn cael ei lywio gan, ac yn cefnogi, ein Strategaeth ar gyfer gofalwyr di-dâl a'r cynllun cyflawni ar gyfer Gofalwyr a gafodd ei lansio ym mis Tachwedd 2021.

Ym mis Ebrill 2022, cyhoeddwyd £29m i ddarparu taliad gwerth £500 i 57,000 o ofalwyr di-dâl yng Nghymru a oedd yn derbyn Lwfans Gofalwr ar 31 Mawrth. Erbyn dechrau mis Gorffennaf, roedd dros 50% o ofalwyr cymwys wedi derbyn y taliad.

Yn ystod Wythnos Gofalwyr ym mis Mehefin, cyhoeddwyd cyllid o £4.5m i barhau â'n Cronfa Cymorth i Ofalwyr lwyddiannus dros y tair blynedd nesaf. Bydd gofalwyr di-dâl mewn caledi ariannol yn gallu gwneud cais am grantiau o hyd at £300 i dalu am fwyd, eitemau cartref ac eitemau electronig. Nid yw cymhwystra ar gyfer y gronfa yn gysylltiedig â'r Lwfans Gofalwr, ond bydd yn targedu gofalwyr ar incwm isel sy'n ei chael yn anodd ymdopi â'u rôl gofalu.

O eleni ymlaen, mae £9m dros dair blynedd yn cael ei fuddsoddi i sefydlu cynllun seibiannau byr arloesol ar gyfer gofalwyr di-dâl ar incwm isel sy'n ei chael hi'n anodd ymdopi â'u cyfrifoldebau gofalu.

Ynghyd â gweithredu ar y data sy'n cael ei ddarparu drwy'r mecanweithiau uchod, rydym yn parhau i weithio gyda gofalwyr di-dâl a'r sefydliadau sy'n eu cefnogi, drwy ein Grŵp Cynghori'r Gweinidog ar Ofalwyr, cyfarfodydd gyda gofalwyr a thrwy ein fframwaith ymgysylltu newydd, i sicrhau bod gofalwyr di-dâl yn bodloni eu hawliau o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

**Goblygiadau ariannol:**

Bydd ymrwymiadau'n cael eu cyflawni drwy'r cyllidebau presennol.

**Argymhelliad 19.** Dylai Llywodraeth Cymru fandadu hyfforddiant dementia ychwanegol ar gyfer staff y GIG a all ddod i gysylltiad â phobl sy'n byw gyda dementia.

<u>Ymateb Llywodraeth Cymru:</u>

**Derbyn mewn egwyddor**

Mae dysgu a datblygu'r holl staff, gan gynnwys staff y GIG, yn thema sy'n rhedeg drwy Gynllun Gweithredu ar gyfer Dementia 2018-2022 a'i ddogfen gydymaith a gyhoeddwyd ym mis Medi 2021, a bydd yn parhau i fod yn faes cyflawni penodol.

Rydym wedi cyhoeddi 'Llwybr Safonau Dementia Cymru' sy'n hyrwyddo dull gofal integredig systemau cyfan, ac mae angen i gyllid sy'n cael ei ryddhau i gefnogi'r gwaith o weithredu'r Cynllun Gweithredu ar gyfer Dementia sicrhau ei fod yn cyd-fynd â'r safonau hyn.

Mae safon benodol sy'n canolbwyntio ar ddysgu a datblygu sy'n nodi y bydd 'pob aelod o staff sy'n darparu gofal ar bob lefel ym mhob disgyblaeth a lleoliad yn cael y cyfle i gymryd rhan mewn dysgu a datblygu sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, gyda chymorth i roi hynny ar waith mewn arferion dyddiol'.

Bwriad fframwaith Gwaith Da (2016) yw cefnogi pawb ym mhob rhan a cham o'r maes gofal dementia i allu myfyrio a nodi eu cryfderau a'u hanghenion datblygu dysgu unigol sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, ac mae hyn eisoes yn cael ei fonitro fel mater o drefn o fewn fframwaith cyflawni'r GIG. Drwy weithredu'r safonau gofal dementia, byddwn

yn edrych ar effaith y dysgu a'r datblygu presennol ac yn cynnig cymorth gyda dulliau ymarferol. Bydd hyn hefyd yn cael ei gefnogi gan y rhaglen waith dysgu a datblygu sy'n is-grŵp i'n grŵp rhanddeiliaid allanol, Grŵp Goruchwylio Gweithrediad ac Effaith ym maes Dementia.

Bryd hyn, ar y cyd â'r Grŵp Goruchwylio Gweithrediad ac Effaith ym maes Dementia, byddwn yn ystyried pa gamau ychwanegol fydd eu hangen, a fydd yn cynnwys y posibilrwydd o wneud hyfforddiant pellach ar ddementia yn orfodol. Bydd y gwaith hwn yn cael ei adrodd drwy ddiweddariadau rheolaidd yn erbyn y Cynllun Gweithredu ar gyfer Dementia.

**Goblygiadau ariannol:**

Dim

**Argymhelliad 20.** Dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda byrddau iechyd i sefydlu cynlluniau peilot i dreialu slotiau rhyddhau penodol ar gyfer pobl â dementia, a chyflwyno adroddiad ar y canfyddiadau i'r Pwyllgor hwn.

<u>Ymateb Llywodraeth Cymru:</u>

**Derbyn mewn egwyddor**

Fel y Pwyllgor, rydym yn pryderu am y dystiolaeth bod pobl sy'n byw gyda dementia yn cael eu rhyddhau o'r ysbyty ar adegau amhriodol ac yn cydnabod yn llwyr fod angen gwneud mwy i gefnogi pobl sy'n byw gyda dementia tra'u bod yn yr ysbyty.

Yn ein dogfen gydymaith i'r Cynllun Gweithredu ar gyfer Dementia, rydym hefyd yn gwneud hyn yn glir. Rydym yn ymrwymo i weithredu'r siarter ysbytai, gwaith sy'n cael ei hwyluso gan Gwelliant Cymru, a fydd yn cefnogi gwelliannau i ofal ysbyty. Rydym hefyd wedi cytuno y byddwn yn adolygu ac yn ystyried yr argymhellion a wnaed gan adroddiad Grŵp Trawsbleidiol y Pumed Senedd ar Ddementia ar ofal ysbyty fel rhan o raglen waith y Grŵp Goruchwylio Gweithrediad ac Effaith ym maes Dementia. Disgwylir i hyn ddigwydd ym mis Medi. Wedi'r adolygiad hwn, byddwn yn cysylltu â'r Grŵp Trawsbleidiol gyda'n hymateb i'r holl argymhellion, a byddwn yn sicrhau bod y Pwyllgor yn derbyn yr ymateb hwn hefyd.

**Goblygiadau ariannol:**

Dim

**Argymhelliad 21.** Dylai Llywodraeth Cymru edrych ar opsiynau ar gyfer agor wardiau ysbytai ar gyfer teuluoedd/gofalwyr, a lle bo hynny'n briodol, staff cartrefi gofal i helpu gyda thasgau o ddydd i ddydd, a chyflwyno adroddiad i'r Pwyllgor hwn. Dylai'r adroddiad hwn hefyd fynd i'r afael â'r mater o yswiriant ar gyfer gweithwyr cartrefi gofal wrth ymgymryd â rôl o'r fath.

<u>Ymateb Llywodraeth Cymru:</u>

**Derbyn mewn egwyddor**

O ran teuluoedd a gofalwyr, mae Llywodraeth Cymru eisoes yn cefnogi dull hyblyg sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn o ymweld ag ysbytai. Mae ein canllawiau ar ymweld ag ysbytai [Ymweld ag ysbytai yn ystod y coronafeirws: canllawiau Gorffennaf 2021 [HTML] | LLYW.CYMRU] yn caniatáu i ofalwyr sy'n berthynas/partner gael mynediad i wardiau ysbytai fel cynorthwywyr cymorth hanfodol.

Rydym yn deall manteision posibl y cynnig o ran staff cartrefi gofal yn cefnogi unigolion tra'u bod yn yr ysbyty. Byddwn yn edrych ar hyn yn fanylach gyda rhanddeiliaid y sector, a byddwn yn darparu diweddariad ynghylch y canfyddiadau i'r Pwyllgor.

**Goblygiadau ariannol:**

Dim

**Argymhelliad 22.** Dylai Llywodraeth Cymru gyhoeddi canllawiau i fyrddau iechyd, gan bwysleisio bod yn rhaid rhoi blaenoriaeth uwch i anghenion tai yn y broses rhyddhau o'r ysbyty, ac y dylid cynnwys sefydliadau tai yn y timau amlddisgyblaethol, fel mater o drefn.

Ymateb Llywodraeth Cymru:

**Derbyn**

Mae'n bwysig bod tai yn rhan o'r broses o gynllunio ar gyfer rhyddhau cleifion o'r ysbyty, er mwyn caniatáu i addasiadau gael eu cwblhau, neu roi trefniadau tai amgen ar waith. Fodd bynnag, heb archwilio pellach, mae'n bosibl na fydd yn ymarferol ei gwneud hi'n orfodol i sefydliadau tai gael eu cynnwys mewn timau amlddisgyblaethol.

Bydd swyddogion yn gweithio gyda rhanddeiliaid perthnasol yn y maes hwn a chynrychiolwyr byrddau iechyd i ystyried sut i gryfhau'r cyngor ar gynnwys sefydliadau tai fel rhan o'r broses o ryddhau cleifion. Bydd swyddogion yn rhoi ystyriaeth lawn i'r maes hwn, fel rhan o'r gwaith o adolygu a diweddaru'r canllawiau ar ryddhau cleifion o'r ysbyty i fyrddau iechyd y mae'n fwriad ei gynnal dros y misoedd nesaf.

**Goblygiadau ariannol:**

Dim

**Argymhelliad 23.** Dylai Llywodraeth Cymru gyhoeddi canllawiau i fyrddau iechyd i bwysleisio pwysigrwydd cynnwys timau fferylliaeth fel rhan hanfodol o'r tîm amlddisgyblaethol fel mater o drefn.

Ymateb Llywodraeth Cymru:

**Derbyn**

Mae Llywodraeth Cymru yn cytuno bod gan weithwyr fferyllol proffesiynol sydd wedi'u hintegreiddio mewn timau amlddisgyblaethol rôl bwysig o ran cefnogi cleifion sy'n cael

eu derbyn i ysbyty, yn ystod eu harhosiad ac wrth iddynt gael eu rhyddhau. Yn ystod yr hydref hwn, byddwn yn cyhoeddi canllawiau i fyrddau iechyd sy’n nodi sut y gall gweithwyr fferyllol proffesiynol gyfrannu at gefnogi llif cleifion drwy ysbytai, gan gynnwys drwy hwyluso rhyddhau cleifion yn brydlon.

**Goblygiadau Ariannol**

Dim

Yn ogystal, bydd Llywodraeth Cymru yn comisiynu adolygiad annibynnol o wasanaethau clinigol sy’n cael eu darparu gan dimau fferylliaeth ysbytai i nodi a chynnig argymhellion ar sut i ddefnyddio sgiliau gweithwyr fferyllol proffesiynol yn llawn, gan gynnwys Fferyllwyr-Ragnodwyr Annibynnol, er mwyn cefnogi blaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer gofal wedi’i gynllunio, gofal brys a gofal mewn argyfwng. Cynhelir yr adolygiad yn ddiweddarach yn 2022/23 gyda’r adroddiad yn cael ei gyflwyno yn y flwyddyn ariannol nesaf.

**Goblygiadau Ariannol**

Dim. Mae costau eisoes wedi’u hamlinellu a’u cymeradwyo drwy gyllideb bresennol y rhaglen ar gyfer Datblygu Polisi Fferylliaeth a Phresgripsiynu 2022/23.

**Argymhelliad 24.** Dylai Llywodraeth Cymru nodi ei chynlluniau, gan gynnwys amserlenni, ar gyfer adolygu a gwella cyfathrebu gyda theuluoedd a gofalwyr. Dylai’r adolygiad hwn hefyd gynnwys gwerthusiad o ansawdd ac effeithiolrwydd yr asesiadau o anghenion gofal a chymorth sy’n cael eu cynnal cyn rhyddhau.

<u>Ymateb Llywodraeth Cymru:</u>

**Derbyn**

Rhaid i ofalwyr di-dâl gael eu cydnabod a’u gwerthfawrogi am eu cyfraniadau i gymdeithas, eu trin fel partneriaid cyfartal i weithwyr iechyd a gofal cymdeithasol proffesiynol a’u cefnogi i leisio’u barn. Maent yn cyflawni rôl gwbl hanfodol yn ystod taith gofal unigolyn, gan gynnwys pan fydd y person hwnnw yn yr ysbyty ac yn cael ei ryddhau.

Yn ystod y flwyddyn ariannol hon, dyrannwyd £1m i fyrddau iechyd ar gyfer gweithgarwch i gynorthwyo gofalwyr di-dâl i gymryd rhan yn y broses hon. Rydym wedi gofyn i fyrddau iechyd flaenoriaethu cymorth ar gyfer gofalwyr di-dâl pan fydd y person y maent yn gofalu amdano yn cael ei dderbyn i’r ysbyty neu’n cael ei ryddhau. Caiff y cyllid hwn ei reoli’n uniongyrchol gan Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol ac fel rhan o’r broses fonitro, bydd disgwyl i fyrddau iechyd nodi sut mae’r cyllid wedi gwella cyfathrebu â theuluoedd a gofalwyr di-dâl.

Mae tystiolaeth gan fyrddau iechyd lleol a’u partneriaethau gofalu, gan ddefnyddio eu dyraniad o’r £1m o gyllid yn 2021-22, yn dangos bod enghreifftiau o weithgarwch arfer da, gyda chamau eisoes yn cael eu cymryd i wella cyfathrebu â gofalwyr di-dâl yn yr ysbyty, a’u cynnwys yn y broses ryddhau.

Yn ardal Bwrdd Iechyd Betsi Cadwaladr, sefydlwyd rôl Hwylusydd Gofal Eilaidd ym mhob Ysbyty Cyffredinol Dosbarth. Mae'r unigolyn hwn yn sicrhau bod lleisiau gofalwyr di-dâl yn cael eu clywed tra bod cyfyngiadau ymweld ar waith. Mae hwyluswyr wedi gallu cysylltu â staff eraill yr ysbyty i sicrhau bod y gofalwyr di-dâl yn derbyn y gwasanaeth sydd ei angen arnynt, ac i sicrhau bod rhyddhau cleifion yn digwydd yn ddiogel er budd nid yn unig y person sy'n derbyn gofal ond y gofalwyr hefyd. Mae gofalwyr di-dâl yn cael eu cefnogi gan yr hwylusydd ym mhob Ysbyty Cyffredinol yn ystod y cyfnod y mae'r person sy'n derbyn gofal yn glaf mewnol, ar hyd y broses ryddhau ac ar ôl iddo ddychwelyd adref i sicrhau bod popeth yn ei le a bod y gofalwr yn gallu ymdopi. Nid yw llawer o ofalwyr di-dâl yn deall y broses ryddhau, ac mae honno'n cael ei hegluro iddynt yn llawn, ynghyd â hawliau gofalwyr.

Mae Albert Heaney CBE, Prif Swyddog Gofal Cymdeithasol Cymru, wedi nodi gofalwyr di-dâl fel maes blaenoriaeth yn ei flaengynllun gwaith. Yn ystod digwyddiadau gwrando a gynhaliwyd dros y flwyddyn ddiwethaf, mae gofalwyr di-dâl wedi rhannu pryderon nad yw asesiadau o anghenion gofalwyr yn cael eu darparu gan awdurdodau lleol yn unol â bwriad y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

Rydym wedi ariannu Uwchgynhadledd Gofalwyr wythnos o hyd ym mis Mawrth 2022, dan law Gofalwyr Cymru, a oedd yn cynnwys trafodaeth ar yr angen am well cyfathrebu rhwng staff ysbytai, teuluoedd a gofalwyr, yn ogystal ag asesiadau o anghenion gofalwyr. Bydd adolygiad o ansawdd ac effeithiolrwydd asesiadau o anghenion gofalwyr yn cael ei gomisiynu gan y Prif Swyddog Gofal Cymdeithasol yn ystod y flwyddyn ariannol hon.

Gan ddefnyddio canfyddiadau adolygiad y Sefydliad Gofal Cymdeithasol er Rhagoriaeth (SCIE) o dystiolaeth yn ymwneud ag asesiadau o anghenion gofalwyr di-dâl yng Nghymru a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru yn 2021; y gwerthusiad o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014; Prosiect Datblygu Data Iechyd Cyhoeddus Cymru a data o'r Fframwaith Perfformiad a Gwella, bydd yr adolygiad yn pennu pa gamau penodol sydd eu hangen i wella asesiadau o anghenion gofalwyr. Bydd hefyd yn cynnwys adolygiad o asesiadau ar gyfer gofalwyr di-dâl pan gaiff y person sy'n derbyn gofal ganddynt ei ryddhau o'r ysbyty.

**Goblygiadau ariannol:**

Dim. Daw'r cyllid ar gyfer yr adolygiad y cyfeirir ato uchod o'r Gronfa Adfer Gofal Cymdeithasol ac felly gellir ei dalu o'r cyllidebau presennol.

**Argymhelliad 25.** Dylai Llywodraeth Cymru egluro pa gamau sy'n cael eu cymryd i fynd i'r afael ag unrhyw bryderon yn ymwneud â diogelu data, a sicrhau bod memoranda cyd-ddealltwriaeth a phrotocolau llywodraethu gwybodaeth priodol ar waith fel nad oes unrhyw rwystrau rhag rhannu data rhwng gwahanol rannau o'r system iechyd a gofal cymdeithasol.

Ymateb Llywodraeth Cymru:

**Derbyn**

Mae sefydliadau sy'n darparu gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yn gyfrifol am sicrhau eu bod yn casglu, storio a rhannu data personol mewn ffyrdd teg a chyfreithlon. Mae hyn yn cynnwys dangos bod data personol yn cael ei ddefnyddio yn

unol â gofynion Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol y DU (UKGDPR), Deddf Diogelu Data 2018 a dyletswydd cyfrinachedd cyfraith gyffredin.

Gellir rhannu data personol at ddibenion darparu gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol. Nid yw deddfwriaeth diogelu data a'r gyfraith gyffredin yn rhwystrau rhag rhannu data at y diben hwn a disgwylir i sefydliadau gydweithio i fynd i'r afael ag unrhyw bryderon gwirioneddol neu ymddangosiadol ynghylch diogelu data.

Ers blynyddoedd lawer, mae Llywodraeth Cymru wedi cefnogi Cytundeb Rhannu Gwybodaeth Bersonol Cymru (WASPI), sy'n darparu templedi safonol ar gyfer protocolau rhannu gwybodaeth sy'n helpu sefydliadau i ddangos eu bod yn cydymffurfio â gofynion cyfreithiol. Mae 754 o sefydliadau yng Nghymru wedi cytuno i gymhwyso egwyddorion WASPI. Mae'r rhain yn cynnwys yr holl Fyrddau Iechyd ac Ymddiriedolaethau'r GIG yng Nghymru, pob Awdurdod Lleol ac amrywiaeth o sefydliadau eraill sy'n ymwneud â gofal, triniaeth, amddiffyn a chefnogi dinasyddion yng Nghymru. Mae 259 o brotocolau rhannu gwybodaeth wedi'u sicrhau a'u cyhoeddi ar wefan WASPI fel enghreifftiau o arfer da.

Mae gan sefydliadau eu harbenigwyr diogelu data a Llywodraethu Gwybodaeth eu hunain y dylid ymgynghori â hwy ynghylch arferion rhannu data.

Mae creu cofnod iechyd a gofal cymdeithasol electronig ar y cyd yn fater cymhleth ac, fel y nodir yn Cymru Iachach, mae uchelgais gan Lywodraeth Cymru i alluogi gwell defnydd o ddata iechyd a gofal cymdeithasol at ddibenion gofal uniongyrchol, ac ar gyfer cynllunio a gwella gwasanaethau. Mae'r Adnodd Data Cenedlaethol yn ganolog i'r uchelgais i greu'r seilwaith digidol a fydd yn sail i gofnod iechyd a gofal cymdeithasol i ddinasyddion yng Nghymru. Mae Llywodraeth Cymru yn parhau i gefnogi'r rhaglen hon drwy'r Gronfa Buddsoddi Blaenoriaethau Digidol.

Wrth i ni symud ymlaen gyda'n huchelgais i ddefnyddio data iechyd a gofal cymdeithasol yn fwy effeithiol, rydym yn ymwybodol o bwysigrwydd ffydd dinasyddion a rhanddeiliaid bod data'n cael ei ddefnyddio'n briodol ac yn foesegol. Rydym yn gweithio ar becyn o waith sy'n cael ei alw'n 'Addewid Data' a fydd yn ymgysylltu â dinasyddion a rhanddeiliaid er mwyn canfod a mynd i'r afael â'u pryderon yn y maes hwn. Mae Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda chynrychiolwyr o'r maes iechyd a gofal cymdeithasol i nodi'r allbynnau penodol a fydd yn helpu i brofi dibynadwyedd. Byddwn yn ehangu'r ymgynghoriad ar y gwaith hwn er mwyn sicrhau ein bod yn casglu safbwyntiau cynrychioliadol ac yn rhoi cyfle i ddinasyddion a rhanddeiliaid gynnig mewnbwn ystyrlon.

Yn ogystal â hyn, mae Gofal Cymdeithasol Cymru yn gweithio'n agos gyda Iechyd a Gofal Digidol Cymru i gefnogi'r gwaith o lywodraethu data a rhannu data yn benodol ar gyfer gofal cymdeithasol. Mae hyn yn cynnwys cyllid i recriwtio staff newydd sy'n gyfrifol am arwain a gweithredu trefniadau llywodraethu data cadarn ledled maes gofal cymdeithasol. Byddant hefyd yn darparu arbenigedd pwnc technegol i'r rhaglen Adnodd Data Cenedlaethol i ddatblygu achosion defnydd, cynghori'r rhaglen honno ynghylch cyfleoedd allweddol a meysydd ffocws ar gyfer gofal cymdeithasol, a chysylltu â rhanddeiliaid ym maes gofal cymdeithasol ar ei rhan.

**Goblygiadau ariannol:**

Dim